



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

<b>TEITL</b>	<b>Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygiad) (Ymadael i â'r UE) 2019</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>6 Chwefror 2019</b>
<b>GAN</b>	<b>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</b>

### **Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Diwygiad) (Ymadael i â'r UE) 2019**

#### **Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddbau 80/590/EEC a 89/109/EEC
- Rheoliad (CE) Rhif 1895/2005 o Rheoliad (CE) Rhif 1935/2004 ar ddeunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd ac yn diddymu Cyfarwyddbau 80/590/EEC ac 89/109/EEC
- Rheoliad (CE) Rhif 1895/2005 ar gyfyngu defnydd deilliadau epocsi penodol mewn deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006 ar arfer gweithgynhyrchu da ar gyfer deunyddiau ac eitemau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 450/2009 ar ddeunyddiau ac eitemau gweithredol a deallus y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 10/2011 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd
- Rheoliad (CE) Rhif 282/2008 ar ddeunyddiau ac eitemau plastig wedi'u hailgylchu y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (CE) Rhif 2023/2006
- Rheoliad (UE) 2018/213 ar ddefnyddio bisphenol A mewn farneisiau a chaenau y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd a diwygio Rheoliad (UE) Rhif 10/2011 o ran defnyddio'r sylwedd hwnnw mewn deunyddiau plastig â ddaw i gysylltiad â bwyd.

#### **Unrhyw effaith y gall yr Offeryn Statudol (OS) ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS hwn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru. Bydd yn trosglwyddo pwerau cyfredol y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau, i Weiniogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Ymhlith pethau eraill, bydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i:

- benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am ddeunyddiau ac eitemau â ddaw i gysylltiad â bwyd i'w gosod ar y farchnad yng Nghymru ai peidio.
- awdurdodi prosesau ailgylchu.
- cyflwyno mesurau penodol ar gyfer atal dros dro neu gyfyngu ar geisiadau sylweddau wedi'u hawdurdodi.

Bydd pwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i ddirymiad drwy benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol. Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

### **Diben y diwygiadau**

Mae'r OS yn ymwneud â chyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar 'ddeunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd'. Dyma'r deunyddiau a'r erthyglau sydd naill ai:

- â'r bwriad iddynt ddod i gysylltiad â bwyd;
- eisoes mewn cysylltiad â bwyd;
- yn gallu, yn rhesymol, ddod i gysylltiad â bwyd neu drosglwyddo eu hansoddau i fwyd dan ddefnydd arferol neu ragweladwy.

Mae hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol neu anuniongyrchol, ac mae enghreifftiau'n cynnwys cynwysyddion ar gyfer cludo bwyd, peiriannau prosesu bwyd, deunydd pecynnu, offer cegin a llestri bwrdd.

Bydd y Rheoliadau cywiro yn gwneud cywiriadau technegol amrywiol, sy'n cynnwys hepgor cyfeiriadau at sefydliadau'r UE, "Cymuned", "Aelod-wladwriaethau" a "y Comisiwn". Bydd yr holl ddeunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd a ddefnyddir yn y DU cyn y diwrnod gadael yn parhau i gael eu caniatáu ar ôl y diwrnod ymadael, a bydd yr holl amodau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio yn cael eu cadw.

Fel newid mwy sylweddol, bydd y Rheoliadau diwygiedig, mewn perthynas â Chymru, yn trosglwyddo swyddogaethau Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) i'r ASB. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys mabwysiadu a chyhoeddi barn wyddonol, a darparu cyngor gwyddonol i Weinidogion Cymru yn eu rôl fel rheolwyr risg (gweler isod) ar ddiogelwch deunyddiau â ddaw i gysylltiad â bwyd a phrosesau cysylltiedig (e.e. ailgylchu plastigau).

Bydd y Rheoliadau diwygiedig hefyd yn trosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn, gan gynnwys swyddogaethau gwneud rheoliadau o dan gyfraith yr UE sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru yn uniongyrchol. Dyma'r pwerau a'r dyletswyddau dan sylw gyda'r Rheoliad a'r Erthyglau priodol:

#### **Rheoliad 1935/2004**

Y pŵer i ragnodi rheolau penodol ar gyfer grwpiau o ddeunyddiau ac eitemau (er enghraifft, awdurdodi rhestr o sylweddau i'w defnyddio wrth weithgynhyrchu deunyddiau ac eitemau) (Erthygl 5), y pŵer i awdurdodi sylweddau newydd (Erthygl 11), diwygio awdurdodiad eitemau rhestredig (Erthygl 12), neu gyflwyno mesurau penodol ar gyfer atal dros dro neu gymhwyso cyfyngedig y darpariaethau (Erthygl 18).

Rheoliad 10/2011

Y pŵer i ragnodi diweddariadau i'r rhestr o sylweddau plastig awdurdodedig (Erthygl 5), gan ddiweddarau'r rhestr dros dro o ychwanegion (Erthygl 7), a rhagnodi darpariaethau penodol ar gyfer deunyddiau ac eitemau aml-haen ac aml-ddeunydd (Erthygl 14).

Rheoliad 282/2008

Y pŵer i ragnodi awdurdodi'r prosesau ailgylchu (Erthygl 6) a rhagnodi diwygiadau i awdurdodi proses ailgylchu (Erthygl 8).

Gellir gweld yr OS a'r Memorandwm Esboniadol, sy'n nodi effaith bob diwygiad yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/wzl0ix8B>

### **Pam rhoddwyd caniatâd**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru/ASB Cymru a Llywodraeth y DU (ASB y DU) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai creu Offerynnau Statudol ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethu'r llyfr statud heb fod angen. Bydd cydsynio i OS ar gyfer y DU i gyd yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. Dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae ASB Cymru/Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.